# GWELLIANNAU I’R RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## LLEOLIAD: DOC PENFRO

**Ynglŷn â’r prosiect:**

Mae’r awdurdod hwn yn cynnig gwella’r llwybrau teithio llesol presennol yn Noc Penfro a fydd yn cynnwys cyflwyno llwybrau newydd yn unol â Chanllawiau’r Ddeddf Teithio Llesol i annog mwy o gerdded, olwyno a beicio o fewn y dref, gyda’r weledigaeth o drosi rhai troedffyrdd yn llwybrau cyd-ddefnyddio.

Llwybr dynodedig sydd wedi’i gynllunio i’w ddefnyddio gan sawl dull teithio, gan gynnwys cerddwyr, beicwyr, ac weithiau defnyddwyr eraill fel unigolion â chymhorthion symudedd yw llwybr cyd-ddefnyddio. Mae’r llwybrau hyn fel arfer wedi’u lleoli oddi ar y ffordd ac maent yn darparu lle diogel a dynodedig ar gyfer teithio llesol, gan wahanu defnyddwyr oddi wrth draffig modur. Ni fwriedir i’r llwybrau cyd-ddefnyddio a gyflwynir yn y cynnig hwn gael eu defnyddio gan farchogion.

Ein nod yw creu amgylchedd diogel i bawb ac annog unigolion i deithio heb ddefnyddio eu cerbydau. Un o brif amcanion y prosiect hwn yw gwella cysylltedd rhwng rhan isaf y dref a gweddill y gymuned, gan sicrhau mynediad cyfleus at gyfleusterau ac ysgolion lleol.

Nod y cynnig yw:

- Creu llwybr teithio llesol di-dor diogel yn y dref
- Gwella cysylltedd y rhwydwaith presennol
- Gwella diogelwch y ffyrdd ar gyfer cerddwyr, olwynwyr, a beicwyr
- Annog teithio llesol sy’n cynnwys pawb yn y gymuned ar gyfer pob math o deithiau, gan gynnwys teithiau’n ymwneud â thwristiaeth a hamdden
- Lleihau faint mae’r trigolion yn dibynnu ar eu ceir, lleihau’r ôl troed carbon, llygredd, a thagfeydd
- Gwella’r amgylchedd ac iechyd a llesiant cymdeithasol y gymuned

Mae’r cynlluniau isod yn dangos lleoliadau’r llwybrau cyd-ddefnyddio arfaethedig yn y dyfodol.

**Cyd-destun ehangach:**

Mae’r prosiect hwn yn rhan o waith ehangach y cyngor i hyrwyddo teithio llesol, gan ei gwneud yn haws i unigolion gerdded, olwyno, a beicio.

Daw’r cyllid ar gyfer y prosiect hwn, ac unrhyw welliannau yn y dyfodol, yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a dim ond ar welliannau i’r rhwydwaith teithio llesol y gellir ei wario. Mae hyn yn golygu ei fod yn gwbl ar wahân i gyllidebau cynghorau lleol ac nad yw’n tynnu cyllid oddi wrth flaenoriaethau lleol pwysig eraill.

**Dweud eich dweud:**


Cwblhewch ein harolwg ar-lein, sydd i’w gael yma https://www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau, i roi eich adborth i ni, gellir darparu copïau papur ar gais. Bydd yr arolwg yn cau ar 28 Gorffennaf 2025 am hanner nos.

I gael rhagor o wybodaeth anfonwch neges e-bost at y tîm majorschemes@pembrokeshire.gov.uk

Gyda’n gilydd gallwn greu lle mwy diogel a braf i bawb sy’n teithio i Ddoc Penfro, oddi yno, ac o’i chwmpas.

**Mae'r cynllun hwn yn nodi lleoliadau'r Llwybrau Defnydd a Rennir arfaethedig yn y dyfodol.**

**Cynllun trosolwg Doc Penfro**




- Llwybr 1 - Trinity Road, Bush Street a Parc Coffa
- Llwybr 2 - Gwyther Street, Prospect Place a Park View Cresent
- Llwybr 3 - High Street a Pembroke Road
- Llwybr 4 - Milton Terrace, Prospect Place a Meyrick Street
- Llwybr 5 - Presely View
- Llwybr 6 - Treowen Road, Pennar Llwybr Parc Chwarae, Cheriton Road a Bentlass Terrace
- Llwybr 7 - Sycamore Street a Llwybr Ceffylau i'r De o Sycamore Woods
- Llwybr 8 - Owen Street
- Llwybr 9 - Military Road
- Llwybr 10 - Victoria Road
- Llwybr 11 - Ford Road, Melville Terrace, Admiralty Way, Meyrick Owen Way a Commercial Row
- Llwybr 12 - Hawkstone Road
- Llwybr 12 - Canterbury Road a Off Road Path Between Tremeyrick Street a Pier Road
- Llwybr 13 - Essex Road
- Llwybr 14 - Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg a Warrior way

**Y camau nesaf:**

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd canlyniadau’r arolwg yn cael eu dadansoddi i nodi’r opsiynau a ffefrir terfynol ar hyd pob llwybr. Yna bydd y data hwn yn cael ei rannu â’n Tîm Peirianneg, a fydd yn datblygu uwchgynllun terfynol sy’n adlewyrchu adborth a barn trigolion lleol.

Cynhelir trafodaethau pellach â chynghorwyr lleol a rhanddeiliaid perthnasol i benderfynu pa elfennau o’r cynllun fydd yn cael eu datblygu, yn amodol ar gyllid.

Bydd y canlyniadau hyn ar gael i’w gweld yn Saesneg ac yn Gymraeg ar ein gwefan: https://www.sir-benfro.gov.uk/strategaeth-drafnidiaeth

Bydd llwybrau eraill yn cael eu datblygu mewn camau yn y dyfodol a bydd cyfle i aelodau’r cyhoedd ddylanwadu ar y lleoliadau drwy ymgynghoriadau yn y dyfodol.